**HYSBYSIAD STATUDOL**

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

**<u>HYSBYSIAD O GYNNIG AD-DREFNU YSGOL DAN DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013</u>**

Rhoddir rhybudd drwy hyn yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Sir Ddinbych, ar ôl ymgynghori â'r fath bersonau, yn cynnig newid Ysgol Plas Brondyffryn yn Ninbych er mwyn cynyddu capasiti o 116 i 220. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac mae'n ysgol arbennig gyd-addysgol i ddisgyblion sydd â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac anawsterau dysgu cysylltiedig, o 3 i 19 oed.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y Cyngor a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych: https://www.sirddinbych.gov.uk/ysgol-plas-brondyffryn-dinbych

Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 28 Ebrill 2025 pan gynigir meddiannu adeilad ysgol newydd.

Nifer presennol y disgyblion yn yr ysgol yw 136. Capasiti disgyblion yr ysgol yw 116 a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 220.

Bydd drefniadau derbyn i Ysgol Plas Brondyffryn, yn parhau drwy'r Panel Derbyniadau.

Nid yw'r cynnig yma'n cynnwys y ddarpariaeth breswyl - Gerddi Glasfryn. Bydd y ddarpariaeth hon yn dal i fod ar gael i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn.

Bydd y trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn Ysgol Plas Brondyffryn yn parhau yr un fath yn yr ysgol newydd arfaethedig yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor fel y mae ar ddyddiad gweithredu'r cynnig.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn 5 Rhagfyr 2022 gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Geraint Davies, Pennaeth Addysg, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 9AZ, neu drwy e-bostio moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk

G. W. Davies

**Geraint Davies**
**Pennaeth Addysg**
**Cyngor Sir Ddinbych**
**Dyddiedig y dydd hwn [8 Tachwedd] 2022**

**NODYN EGLURHAOL**

(Nid yw'r nodyn eglurhaol hwn yn ffurfio rhan o'r Hysbysiad ond fe'i cynigir fel esboniad)

1. Lleoliad presennol Ysgol Plas Brondyffryn yw:
   i) Prif safle - Ffordd Ty'n Fron, Dinbych, LL16 3DP
   ii) Safle eilaidd - Lôn Parc, Dinbych, LL16 3DR
   iii) Safle eilaidd (anghenion cymhleth) - Tŷ'r Ysgol, safle Gwynfryn, Dinbych, LL14 4ST
   iv) Safle preswyl - Gerddi Glasfryn, Nantglyn, LL16 4ST - Nid yw'r ddarpariaeth hon yn newid a bydd dal ar gael i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn.
2. Mae'r gweithrediad yn amodol ar gytuno ar safle, caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo, cyllid ar gael a bod yr adeilad newydd yn barod.
3. Nodwyd y rhesymeg dros y cynnig hwn mewn dogfen ymgynghori a ddosbarthwyd ym mis Mai 2022.
4. Mae copïau o'r ddogfen ymgynghori a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gael gan Foderneiddio Addysg yn y cyfeiriad a nodir yn yr Hysbysiad.
5. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi cychwyn cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod **o 8 Tachwedd 2022 i 5 Rhagfyr 2022** ac yn nodi'r cyfeiriad ble dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig.

**STATUTORY NOTICE**

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**NOTICE OF SCHOOL REORGANISATION PROPOSAL UNDER THE SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION (WALES) ACT 2013**

Notice is hereby given in accordance with Section 42 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Denbighshire County Council, having consulted such persons as required, proposes to alter Ysgol Plas Brondyffryn in Denbigh so that the capacity is increased from 116 to 220. The school is currently maintained by Denbighshire County Council and is a co-educational special school for pupils with Autism Spectrum Condition (ASC) and associated learning difficulties from the age of 3 to 19.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the responses of the Council and the views of Estyn is available on the Denbighshire County Council website: https://www.denbighshire.gov.uk/ysgol-plas-brondyffryn-denbigh

You may request a copy by emailing modernisingeducation@denbighshire.gov.uk

It is proposed to implement the proposal on 28$^{th}$ April 2025 when occupation of a new school building is proposed.

The current number of pupils at the school is 136, the pupil capacity of the school is 116 and the proposed capacity once the proposal is implemented will be 220.

Admission arrangements to Ysgol Plas Brondyffryn will continue via the Admissions Panel.

This proposal does not include the residential provision- Gerddi Glasfryn. This provision will still be accessible to Ysgol Plas Brondyffryn pupils.

The home to school transport arrangements for pupils currently at Ysgol Plas Brondyffryn will remain the same at the proposed new school in accordance with the Council's Home to School Transport Policy as at the date of implementation of the proposal.

Within a period of 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say by 5$^{th}$ December 2022 any person may object to the proposals.

Objections should be sent in writing to Geraint Davies, Head of Education, Denbighshire County Council, PO BOX 62, Ruthin, Denbighshire, LL15 9AZ, or by email to modernisingeducation@denbighshire.gov.uk



**Geraint Davies**
**Head of Education**
**For Denbighshire County Council**
**Dated this day [8$^{th}$ November] 2022**

**EXPLANATORY NOTE**

(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)

1. Ysgol Plas Brondyffryn is currently located at:
   i) Primary site- Tyn Fron Road, Denbigh, LL16 3DP
   ii) Secondary site- Park Street, Denbigh, LL16 3DR
   iii) Secondary site (complex needs)- Ty'r Ysgol, Gwynfryn site, Denbigh, LL16 4ST
   iv) Residential site- Gerddi Glasfryn, Nantglyn, Denbigh, LL16 4ST- This provision is not impacted by this proposal and will still be accessible to Ysgol Plas Brondyffryn pupils.
2. The implementation is subject to a site being agreed, planning consent being approved, funding being available and the new build being ready.
3. The rationale for this proposal was set out in a consultation document circulated in May 2022.
4. Copies of the consultation document and Home to School Transport Policy are available from Modernising Education at the address set out in the Notice.
5. This Notice marks the start of a 28-day objection period from **8$^{th}$ November 2022 to 5$^{th}$ December 2022** and sets out the address to which objections in writing may be submitted.